OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1472 (Cy. 260)

# BWYD, CYMRU
# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Tachwedd 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1)(a) a 26 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Yn unol ag adran 26(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Mawrth 2020.

### Yr isafbris uned

**2.** Yr isafbris uned at ddibenion adran 1(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yw £0.50.

(**1**) 2018 dccc 5; *gweler* adran 27(3) i gael y diffiniad o "rheoliadau".
(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/228 (OJ Rhif L 35, 10.2.2017, t. 10).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

20 Tachwedd 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano gan fanwerthwyr alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru i berson yng Nghymru, ac mae'n sefydlu cyfundrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.

Mae adran 1 o Ddeddf 2018 yn nodi'r fformiwla sydd i'w chymhwyso wrth gyfrifo'r isafbris cymwys at y diben hwn. Y fformiwla honno yw I x Cr x Cy.

I yw'r isafbris uned a bennir mewn rheoliadau; Cr yw cryfder yr alcohol, a fynegir fel rhif prifol (felly er enghraifft os yw'r cryfder yn 5%, 5 fydd y rhif prifol perthnasol); a Cy yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu mai'r isafbris uned (I) at ddibenion Deddf 2018 yw £0.50.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am y Rheoliadau hyn ar ffurf ddrafft yn unol â Chyfarwyddeb (EU) 2015/1535 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 241, 17.9.2015, t. 1) sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes rheoliadau technegol a rheolau ar Wasanaethau'r Cymdeithasau Gwybodaeth.